

YMWELIADAU SAFLE

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2023

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd) Cynghorwyr Geraint Bebb (ar gyfer cais 1), Jeff Evans, Neville Evans, Glyn Haynes, R. Llewelyn Jones, Dafydd Roberts, Robin Williams (ar gyfer cais 1)
WRTH LAW:	Arweinydd Tîm (GJ) Uwch Swyddog Cynllunio a Swyddog Achos ar gyfer cais 1 (JR) Uwch Swyddog Cynllunio a Swyddog Achos ar gyfer cais 2 (SOH)
YMDDIHEURIADAU:	Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, MBE, John I. Jones, Jackie Lewis, Liz Wood.
HEFYD YN BRSENNOL:	Aelodau Lleol: Cynghorwyr Dyfed Wyn Jones (ar gyfer cais 1), Arfon Wyn (ar gyfer cais 2)

1 FPL/2023/42 - Cais llawn i ddymchwel yr annedd bresenol ynghyd â chodi dwy annedd newydd ynTreiddon, Ffordd y Traeth, Porthaethwy

Cyflwynodd y Swyddog Achos y cais i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Dangoswyd safle'r cais arfaethedig i Aelodau o Ffordd Cambria a Ffordd y Traeth ac o'r tir mawr. Rhoddwyd disgrifiad ar lafar o'r cynllun.

2 FPL/2023/61 - Cais llawn ar gyfer newid defnydd tir amaethyddol i fod yn safle cabanau gwyliau er mwyn lleoli 13 o gabanau gwyliau, adeiladu ffordd newydd ar y safle, addasiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau ynghyd â gwaith tirlunio meddal a chaled ynTaldwrst, Lôn Fain, Dwyran

Cyflwynodd y Swyddog Achos y cais i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Dangoswyd safle'r cais arfaethedig i Aelodau ynghyd â llwybr y ffordd fynediad newydd a'r fynedfa newydd arfaethedig i Lôn Fain. Dangoswyd hefyd y gyffordd o Lôn Fain i'r A4080 a gwelwyd safle'r cais o'r ffordd fawr. Rhoddwyd disgrifiad ar lafar o'r cynllun.

Cynghorydd Ken Taylor
Cadeirydd